Minutes

Cyngor

Date:	Dydd Mawrth, 27 Medi 2022
Time:	5.00 pm
Present:	Councillors C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, T Harvey, M Howells, P Bright, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, J Jones, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Fouweather, D Harvey, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, T Watkins, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, A Morris, F Hussain and B Perkins
Apologies:	Councillors L James, J Peterson, M Kellaway, M Linton and W Routley

1. **Rhagofynion**

Cafwyd dwy funud o dawelwch er cof am y ddiweddar Frenhines Elizabeth II.

1.i Ymddiheuriadau

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y cafwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau a ganlyn: Y Cynghorwyr Perkins, Routley, Kellaway, Peterson a Linton.

1.ii Datgan Buddiant

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

1.iii Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol

Dywedodd yr Aelod Llywyddol wrth gydweithwyr y Cyngor y byddwn yn croesawu Gŵyl Fwyd Casnewydd unwaith eto mewn llai na phythefnos. Ddydd Sadwrn 8 Hydref, bydd strydoedd canol ein dinas unwaith eto'n gyforiog o weithgarwch a danteithion blasus.

Bydd digonedd o stondinau bwyd wrth i fasnachwyr arddangos y gorau o fwyd a diod o bob rhan o'r ddinas a'r rhanbarth ehangach.

Bydd cogyddion lleol hefyd yn rhoi arddangosiadau arbennig drwy gydol y dydd ym Marchnad Casnewydd ar ei newydd wedd. Yn ogystal â hynny, bydd rhaglen lawn o weithgareddau'n cael eu cynnal i'r teulu oll. Gwahoddir pob aelod i fod yn bresennol ac i ddangos eu cefnogaeth i'r digwyddiad, ac rwy'n gobeithio eich gweld yno.

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol yr aelodau hefyd y byddai'n Sul y Cofio cyn hir, a gobeithiai y gallai'r aelodau fod yn bresennol.

2. **Cofnodion**

Derbyniwyd bod cofnodion 19 Gorffennaf 2022 yn gywir.

3. **Penodiadau**

Cynigiodd y Cynghorydd James y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a oedd wedi'u nodi isod.

Penderfynwyd: Cytuno ar y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad i'r Cyngor, ynghyd â'r penodiadau ychwanegol a ganlyn.

Penodiadau Cyrff Llywodraethol

Corff Llywodraethol	**Nifer y Lleoedd Gwag / Ailbenodiadau**	**Enwebiadau a Gafwyd**
Ysgol Uwchradd Llan-wern	Ailbenodi	Mark Spencer
Ysgol St Julian's	Ailbenodi	Deborah Davies
Ysgol St Julian's	Ailbenodi	Tracy McKim
Ysgol St Julian's	Ailbenodi	Phillip Hourahine
Ysgol Gynradd Glan Wysg	Amnewid	Paul Bright
Ysgol Gynradd Pilgwenlli	Amnewid	Saeed Adan

Cyrff Allanol
Ymddiriedolaeth Canolfan Mileniwm Pil: Y Cynghorydd D Jenkins i gymryd lle'r Cynghorydd S Adan.

4. **Materion yr Heddlu**

Estynnodd yr Aelod Llywyddol groeso i'r Prif Arolygydd John Davies, a roddodd y newyddion diweddaraf i aelodau'r cyngor am faterion yr heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol wedyn i'r Arweinydd a oedd ganddi gwestiynau i'r Prif Arolygydd Davies.

Yn ôl cynghorwyr o Orllewin Casnewydd, dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n ymddangos fel pe bai ymgysylltu mwy rheolaidd yn digwydd rhwng cynghorwyr a'r Heddlu yn Nwyrain Casnewydd. Gofynnodd yr Arweinydd a ellid mynd i'r afael â hyn, a sefydlu trefniadau rheolaidd i ymgysylltu â chynghorwyr yng Ngorllewin Casnewydd. Byddai'r Prif Arolygydd yn ymchwilio i'r cais hwn ar ran yr Arweinydd, a dywedodd hefyd fod yr Heddlu yn ymchwilio i roi'r cyd-destun i faterion a geir ym mhob ward i'r holl aelodau, ynghylch yr hyn a oedd yn digwydd ym mhob ardal o Gasnewydd, drwy gylchlythyr misol neu ddeufisol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y ffaith bod parthau 20mya yn cael eu cyflwyno yng Nghasnewydd, ac at y pryderon ynghylch cynlluniau gorfodi, a gofynnodd a fyddai modd i'r Heddlu gwrdd â Chynghorwyr i gynnal sesiwn wybodaeth, fel y gellid wedyn adrodd yr wybodaeth honno'n ôl i etholwyr a oedd yn cysylltu'n gyson â'u haelodau ward i drafod hyn. Byddai'r Prif Arolygydd yn ymchwilio i hyn ar ran yr Arweinydd.

I gloi, roedd hi'n wych gweld digwyddiadau yng Nghasnewydd yn ailddechrau eto ar ôl dwy flynedd, gan gynnwys Carnifal Pil, y Sblash Mawr a Digwyddiad Pride Agoriadol Casnewydd. Roedd yr Arweinydd felly am longyfarch y Prif Arolygydd a'i gydweithwyr am eu gwaith plismona cadarnhaol yn yr holl ddigwyddiadau hyn yn y gymuned. Roeddent wedi ymgysylltu'n wirioneddol â'r cyhoedd, ac roedd yr Arweinydd am i hynny gael ei adrodd yn ôl wrth gydweithwyr y Prif Arolygydd Davies. Diolchodd y Prif Arolygydd i'r Arweinydd am ei sylwadau caredig gan ddweud y byddai'n adrodd hynny'n ôl wrth ei gydweithwyr.

Cwestiynau i’r Heddlu a godwyd gan y Cynghorwyr:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Fouweather at y broses ymgynghori ynghylch y 20mya, lle nad oedd neb o Heddlu Gwent wedi gwneud unrhyw sylw. Roedd goblygiadau aruthrol yn sgil hyn o ran yr Heddlu ac adnoddau, ac roedd llawer o bobl heb fod yn cadw at y terfyn cyflymder. A allai'r Prif Arolygydd felly ganfod pam na chafwyd unrhyw sylwadau gan Heddlu Gwent i'r ymgynghoriad, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. Byddai'r Prif Arolygydd yn ymchwilio i hyn, a dywedodd hefyd fod mwyafrif y gwaith gorfodi yn cael ei gyflawni gan 'Gan Bwyll' Cymru.

- Roedd y Cynghorydd A Morris wedi sylwi ar gynnydd yn y defnydd o e-feiciau yn Llyswyry a'r ddinas, a oedd yn mynd yn gynt na 20mya. Roedd y beiciau hyn wedi cael eu prynu heb fod angen trwydded, cyfarpar diogelwch, unrhyw wybodaeth am God y Ffordd Fawr nac yswiriant. Bu nifer o ddamweiniau agos, ac roedd hi'n bosibl iawn y gallai rhywun gael ei ladd. Beth oedd y safbwynt cenedlaethol ynghylch hyn? Dywedodd y Prif Arolygydd mai'r safbwynt cenedlaethol ynghylch e-feiciau oedd sut roedd yr Heddlu yn ymdrin â nhw'n dactegol. Roedd yr Heddlu'n ymchwilio i nifer o opsiynau gwahanol ond teimlai ei bod yn amhriodol mynd i'r afael â nhw mewn fforwm cyhoeddus ar hyn o bryd, ond roeddent yn agos at ganlyniad dactegol i ymafael ynddynt. Rhan o'r ymgyrch oedd targedu manwerthwyr. Roedd mwyafrif yr e-feiciau hyn yn cael eu cynhyrchu dramor yn hytrach na'r DU, felly roedd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r broses o fewnforio'r beiciau hyn. Gan fod yr Heddlu'n agos at fynd i'r afael â'r sefyllfa, byddent yn gweld canlyniad cyn hir.

- Soniodd y Cynghorydd Cleverly hefyd am y parthau 20mya ar dull o'u monitro, yn enwedig o ran e-feiciau a sgwteri. Unwaith eto, cyfeiriodd y Prif Arolygydd hefyd at ei ateb blaenorol, ac roedd yn hapus i gysylltu â'r Cynghorydd Cleverly i ddeall y problemau'n gysylltiedig â'r hyn a oedd yn digwydd ym Metws.

- Diolchodd y Cynghorydd Hourahine i'r heddlu am ymdrin â'r 'digwyddiad gwn' ffug yn gynharach yn y diwrnod yn Ysgol St Julian, a arweiniodd at gau'r ysgol. Roedd hwn yn fater parhaus, felly roedd y Prif Arolygydd yn hyderus y byddent yn dod i wybod beth ddigwyddodd yn y diwrnodiau nesaf.

- Soniodd y Cynghorydd Deborah Harvey ei bod hi, fel Aelod Ward Alway, yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda’r Arolygydd Cawley. Canmolodd ei waith caled a'i ymroddiad yn y gymuned ar hyd y blynyddoedd a gofynnodd a ellid mynegi ei diolch wrtho.

- Gofynnodd y Cynghorydd Evans a allai'r Heddlu ymhelaethu ynghylch yr hyn yr oedd yr heddlu a phartneriaid, gan gynnwys y Cyngor, yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol â chardotwyr bygythiol yng Nghanol y Ddinas. Dywedodd y Prif Arolygydd fod yr Heddlu eisoes yn ymgysylltu'n helaeth â'r awdurdod lleol a phartneriaid y trydydd sector a'u bod wedi mabwysiadu dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau, ac estynnodd wahoddiad i Gynghorwyr oedd â diddordeb i ddod i gyfarfod i ddeall beth oedd hynny'n ei olygu. Roedd hwn yn fater cymhleth a oedd yn golygu bod angen deall y broblem, yn hytrach na rhuthro'n wyllt at y sefyllfa, ac roedd yn fwy na bodlon bod ganddo gefnogaeth partneriaid i fynd i'r afael â'r broblem.

- Roedd y Cynghorydd Corten yn deall y pwysau ar yr heddlu a chyfeiriodd at Ymgyrch Bang, a gofyn a oedd unrhyw beth y gallai cynghorwyr ward Ringland ei wneud er mwyn helpu'r timau plismona yn eu hardal. Diolchodd y Prif Arolygydd i'r Cynghorydd Corten am ei chynnig caredig ac roedd yn fwy na pharod i gynnwys cynghorwyr ward Ringland yn y cyfarfodydd hyn, a byddai'n hysbysu'r Arolygydd Cawley a oedd yn cynnal yr ymgyrch i'w cynnwys yn y gwaith partneriaeth.

- Roedd y Cynghorydd Whitehead wedi clywed mai Casnewydd oedd y ddinas waethaf ond un yn y DU am broblemau cyffuriau, a gofynnodd a oedd hynny'n wir? Dywedodd y Prif Arolygydd wrth y Cynghorydd Whitehead nad oedd wedi clywed yr ystadegyn hwnnw.

- Soniodd y Cynghorydd Drewett am y torfeydd mawr a ymgasglodd ar Ridgeway ar Noson Tân Gwyllt y flwyddyn diwethaf, a gofynnodd a fyddai hynny'n cael ei blismona'n effeithiol. Dywedodd y Prif Arolygydd y byddai asesiad risg yn cael ei gynnal i weld pa ardal a wynebai'r risg fwyaf dros y cyfnod hwnnw, ac y byddai felly'n rhoi gwybod i'r Cynghorydd Drewett a oedd Ridgeway yn y categori risg uchel.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mogford hefyd at y terfynau cyflymder 20mya a gofynnodd pa adnoddau oedd ar gael i'r heddlu. Dywedodd y Prif Arolygydd fod uned neilltuol ar gyfer plismona ffyrdd, a oedd yn ymdrin â'r 'pum angheuol'. gan gynnwys goryrru a 'Gan Bwyll Cymru'. Roedd yr adnoddau hynny'n cael eu targedu at yr ardaloedd neilltuol hynny er mwyn gorfodi terfynau cyflymder.

- Soniodd y Cynghorydd Batrouni fod achosion o 'gogio' i'w cael yn gyffredin yn Sir Fynwy, lle'r oedd gangiau o droseddwyr yn targedu oedolion agored i niwed, gan feddiannu eu cartref ac ecsploetio'r bobl a'u cartrefi er mwyn cyflawni gweithgarwch troseddol. Holodd a oedd hyn yn broblem neilltuol yng Nghasnewydd? O ran cogio, dywedodd y Prif Arolygydd fod ymagwedd gadarn ar waith, yn enwedig lle'r oedd pobl agored i niwed yn byw mewn wardiau penodol. Yn ail, gofynnodd y Cynghorydd Batrouni beth oedd perthynas yr Heddlu â Chartrefi Dinas Casnewydd (CDC); yn enwedig mewn perthynas â'r mater blaenorol, a hefyd yn gyffredinol. Soniodd y Prif Arolygydd fod y berthynas â CDH hefyd yn dda iawn, gan roi enghraifft o'r materion mewn unrhyw ardal benodol lle roedd pobl yn cael eu cartrefu. Byddai'r Heddlu, ynghyd â CDC, yn ymchwilio i bolisïau tai fel na cheir cynnydd yn y niferoedd a leolir yn yr un ardal, ac i atal pobl â phroblemau penodol rhag byw mewn ardaloedd penodol. Roedd CDC hefyd yn ymwneud â phartneriaeth troseddau casineb yr Heddlu, ac yn chwarae rhan bwysig iawn er mwyn rheoli Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Gofynnodd y Cynghorydd Saeed Adan a oedd targed ar gyfer yr amser ateb galwadau 101 a galwadau eraill nad oeddent yn rhai brys. Atebodd y Prif Arolygydd drwy ddweud bod targedau amser yn cael eu gosod ar gyfer galwadau 999 a 101. Roedd yr amseroedd aros ar gyfer galwadau 101 yn llawer hwy, a gallai defnyddwyr y rhif hwnnw ddisgwyl yn hirach am y gwasanaeth. Nid oedd yr Heddlu'n fodlon â pherfformiad ar hyn o bryd. Roedd y tywydd dros yr haf wedi effeithio ar hyn, a bu'r galw am wasanaeth yr heddlu'n uwch na'r arfer. Roedd llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod pobl yn gallu riportio achosion nad oeddent yn rhai brys heb orfod defnyddio'r ffôn, ee, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost a'r wefan. Roedd hi'n brafiach siarad â rhywun, ond yn anffodus dyna'r sefyllfa yr oedd yr heddlu ynddi ar y pryd.

5. **Hysbysiad o Gynnig Cydymdeimlad**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol wrth y cynghorwyr, drwy gytundeb rhwng y grwpiau gwleidyddol, mai dyma'r eitem olaf ar yr agenda, ac y byddai unrhyw atebion i gwestiynau i'r Arweinydd neu i Aelodau'r Cabinet yn cael eu rhoi mewn ysgrifen.

Gwnaeth yr Arweinydd y cynnig canlynol i'r Cyngor:

Mae'r Cyngor hwn yn mynegi tristwch mawr wedi marwolaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines, ac yn mynegi cydymdeimlad diffuant tuag at Ei Mawrhydi Y Brenin ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol. Rydym yn cydnabod ymrwymiad parhaus Ei Mawrhydi i wasanaeth a dyletswydd gyhoeddus, gan gynnwys ei chefnogaeth tuag at lawer o elusennau a sefydliadau Cymreig, a'i chysylltiad â Chymru a'i phobl ar hyd ei hoes.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd M Evans.

Cadwodd yr Arweinydd ei hawl i siarad ar y diwedd. Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorydd Evans i siarad:
Roedd yr ychydig wythnosau diwethaf wedi bod yn fwrlwm o emosiwn, gyda sioc, galar ac anghrediniaeth ond ymdeimlad o falchder a gobaith, ynghylch y modd yr aeth y Genedl a'r ddinas ati i dalu teyrnged i wraig uchel ei pharch ac annwyl gan lawer. Ni all y Gweriniaethwyr mwyaf pybyr hyd yn oed wadu ei hymroddiad llwyr i wasanaeth cyhoeddus.

Roedd rhai ohonom yma wedi bod yn ffodus i gael bod yn Faer y Ddinas, a byddai eraill yn cael y cyfle hwnnw yn y dyfodol. Roedd yn fraint ac anrhydedd o'r mwyaf, ac mae'n rhaid dweud ei bod wedi bod yn flwyddyn feichus ond boddhaus.

Ni allaf ddychmygu gwneud hyn, ond ar raddfa llawer mwy am dros 70 o flynyddoedd, ond dyna a wnaeth y Frenhines hyd at ddiwrnod ei marwolaeth, yn 96 oed.

Ni chefais erioed gwrdd â hi, ond rydw i ymhlith yr ychydig Gynghorwyr sydd ar ôl a oedd yn bresennol yn y cinio yng Nghanolfan Casnewydd, pan ddaeth i ddathlu statws Casnewydd fel dinas yn 2002. Roedd y strydoedd yn orlawn o bobl a oedd wedi dod i ddymuno'n dda, ac roedd yn ddiwrnod na fyddwn i fyth yn ei anghofio.

Ar adeg arall, cefais fynd i wasanaeth eglwys yng Nglynebwy i ddathlu ei Jiwbilî Ddiemwnt. Eisteddais gyferbyn â hi, ac roedd ganddi bresenoldeb cryf iawn, er ei bod yn fach o ran corffolaeth, ac roedd ei gwên yn goleuo'r ystafell.

Mae pob un ohonom wedi clywed neu weld rhai hysbysiadau gwirioneddol afiach ar y cyfryngau cymdeithasol, gan leiafrif di-glem, ac yn anffodus nid yw Casnewydd yn eithriad i hynny. Ond yr ymdeimlad cryfaf a gafwyd oedd bod y ddinas, y wlad a'r Deyrnas Unedig yn gytûn, fel yr ydym ni heddiw.

Wrth inni ymdopi â marwolaeth y Frenhines, efallai mai'r deyrnged fwyaf y gallem oll ei gwneud, yw efelychu ei hymroddiad enfawr a'i gwasanaeth i'r bobl rydym yn eu cynrychioli, o Ringland i Ridgeway, a gweithio'n galed i wella ein dinas.

Roedd y Frenhines yn annwyl gan lawer, yn stoic ac yn ennyn parch. Roedd ganddi ymdeimlad cryf o ddyletswydd - yn Frenhines yr oesau, yn symbol o sefydlogrwydd a gwytnwch. Roedd hi'n Frenhines ac yn Fatriarch a byddai colled fawr ar ei hôl. Ond gadawodd etifeddiaeth aruthrol ar ôl 70 mlynedd o deyrnasiad hanesyddol. Boed i'n hannwyl Frenhines orffwys mewn hedd a Duw a Gadwo'r Brenin.

Siaradodd y Cynghorwyr Lacey, Marshall, y Cynghorydd Fouweather, Drewett, Cocks, Spencer, R Howells, D Davies, D Harvey a Morris i gyd o blaid y cynnig, gan fynegi eu hedmygedd o'r Frenhines yn ystod 70 mlynedd ei theyrnasiad. Tynnwyd sylw at y camau breision a wnaeth tuag at heddwch yn Iwerddon, ei Jiwbilî Blatinwm ddiweddar a'r digwyddiadau'n gysylltiedig â hyn yng Nghasnewydd, ei rôl mewn byd lle mae dynion yn teyrnasu a'i gwaith er budd y Gymanwlad. Rhannodd cynghorwyr hefyd eu straeon am gwrdd â'r Frenhines, ei hetifeddiaeth a'u parch tuag ati.

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd wneud datganiad i gloi.

Diolchodd y Cynghorydd Mudd i'r Aelod Llywyddol a'r holl gydweithwyr a siaradodd o blaid y cynnig ac am siarad ar ran eu hetholwyr.

Roedd yr Arweinydd am fynegi ei diolch ar ran yr holl aelodau etholedig i'n timau o fewn y Cyngor a wnaeth yr holl drefniadau angenrheidiol i sicrhau bod popeth wedi'i gynnal yn llyfn a di-drafferth dros y cyfnod hwn. Cafwyd llawer o waith trefnu yn y cefndir o fewn y Cyngor, yn dilyn marwolaeth y Frenhines, a digwyddodd y cyfan yn gyflym iawn. Talodd yr

Arweinydd deyrnged arbennig i'r Maer ac i'r Cynghorydd J Hughes am eu darlleniad o'r Proclamasiwn yn Siambr y Cyngor.

Roedd gwrando ar fyfyrdodau cydweithwyr y cyngor wedi gwneud i'r Arweinydd fyfyrio ar yr holl ddathliadau a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn i ddathlu Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines. Roedd llawer o Gynghorwyr wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny a thynnodd yr Arweinydd sylw at un yn arbennig, sef plannu coed ar gyfer ymgyrch y Jiwbilî, ac roedd y coed hyn wedi'u plannu yn llawer o'n hysgolion a hefyd mewn mannau cyhoeddus. Roedd y rhain yn etifeddiaeth wirioneddol a pharhaol, ac yn goffadwriaeth weddus i'n Mawrhydi y Frenhines. Bydded iddynt barhau i fod yn goffadwriaeth fyw i'r dyfodol. Fel pobl, mae pawb ohonom yn gwybod am boen galar a cholled, ac rydym yn meddwl yn ddwys am y Teulu Brenhinol dros y cyfnod trist hwn, ond hefyd am ddinasyddion a theuluoedd Casnewydd, sy'n profi galar a cholled ar hyn o bryd.

I gloi, cytunodd yr Aelod Llywyddol hefyd â'r sylwadau a wnaed gan ei gydweithwyr. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, gyda phawb yn unfrydol o'i blaid.

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i'r aelodau am fod yn bresennol a chloi'r cyfarfod.

6. **Ymatebion Ysgrifenedig i Gwestiynau Aelod Cabinet**

Cwestiynau Ysgrifenedig gan y Cyngor – 19 Gorffennaf 2022

Eitem 5: 2021/22 Adroddiad diwedd blwyddyn Rheoli'r Trysorlys

Cwestiwn Atodol a Godwyd yn y Cyngor gan y Cynghorydd Routley:
Cyfeiriodd y Cynghorydd Routley at dudalen 52, adran 9 yn yr adroddiad lle nodwyd nad oedd unrhyw fuddsoddiadau'n cefnogi Sefydliadau Rwsiaidd yn uniongyrchol, ac felly gofynnodd a oedd unrhyw fuddsoddiadau'n cefnogi Sefydliadau Rwsiaidd yn anuniongyrchol.

O dan weithgarwch dyledion eraill, sylwodd y Cynghorydd Routley hefyd fod cyllid cyfalaf wedi'i godi ar gyfer Ysgol Glan Wysg a Ffordd Ddosbarthu'r De. Roedd y datganiad cyfrifon yn dangos rhwymedigaeth o £39M i dalu'r gweithredwr, felly gofynnwyd a ellid torri'r cyllid i lawr rhwng yr Ysgol a'r SDR.

Ymateb y Pennaeth Cyllid:
BUDDSODDIADAU
O ran egwyddor, oherwydd natur marchnadoedd arian byd-eang ni allwch fyth fod 100% yn siŵr na fydd unrhyw fuddsoddiadau'n cael effaith ar fuddiannau Rwsiaidd, yn enwedig lle ceir gwladwriaeth sy'n cefnogi twyll. Y rheswm am hyn yw bod trafodion yn creu trafodion eraill â sefydliadau eraill, ac mae'n amhosib gwirio pob dolen mewn cadwyn hir, cyn gorfod dechrau gwirio trafodion eraill y diwrnod canlynol oherwydd natur gylchol trafodion y farchnad arian. Safon y diwydiant yw sicrhau nad oes unrhyw gyswllt amlwg â Rwsia yn eich trafodyn uniongyrchol, a disgwyl i eraill fod yn mor ddiwyd yn eu trafodion hwythau.

Ar 31 Mawrth roedd ein holl fuddsoddiadau gyda Chynghorau eraill, busnesau eraill y sector cyhoeddus wedi'u lleoli yn y DU, llwyfan buddsoddi/benthyca sector cyhoeddus y Llywodraeth (DMO), cronfa gyfun yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol a'n cyfrif galw gyda Santander. Ar wahân i'r hyn a ddywedais uchod, ar sail hynny a'n sefyllfa ar 31 Mawrth (ac ers hynny), rydym yn hyderus nad oedd unrhyw gysylltiadau rhwng buddsoddiadau a gweithgareddau Rwsiaidd.

Mentrau Cyllid Preifat
MCP - mae ein trafodion â Morgan Vinci mewn perthynas â ffordd ddosbarthu gyswllt y de a Newport Schools Solutions Ltd mewn perthynas ag ysgol Glan Wysg (gyda'r cwmni olaf

hefyd yn is-gwmni i grŵp Vinci). Yn ystod 2021-22, talwyd £6.6m i'r naill gwmni a £2.1m i'r llall.

Eitem 9: Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet

Cwestiwn Atodol a godwyd gan y Cynghorydd Mogford i'r Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau ynghylch - Ymgynghori â Phreswylwyr ar ôl cyflwyno'r Parth 20mya

Gofynnodd y Cynghorydd Mogford:
O ran y broses leol ar ôl cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya, oni fyddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r preswylwyr?

Ymatebodd y Cynghorydd Lacey:
Hoffwn gyfeirio eich sylw i ddechrau i'r pecyn gwybodaeth i Aelodau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac yr anfonodd y Gwasanaethau Democrataidd at yr holl Aelodau ym mis Gorffennaf. Mae'n ceisio darparu gwybodaeth am yr holl agweddau ar y cynllun i weithredu terfyn cyflymder diofyn o 20mya ledled Cymru, gan gynnwys yr arolwg o agweddau'r cyhoedd, a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar ostwng y terfyn cyflymder diofyn.

Mae pob awdurdod lleol yn gweithio'n unol â'r canllawiau a'r meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodio'r ffyrdd a fydd yn troi i'r terfyn diofyn o 20mya ac yn aros yn 30mya.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir, sef na fydd unrhyw ymgynghori pellach ar ffyrdd sy'n newid i fod yn 20mya, gan fod y meini prawf wedi'u gosod a byddant yn cael eu gweithredu mewn modd cyson ledled Cymru.

Fodd bynnag, bydd y ffyrdd sydd wedi'u nodi i aros yn 30mya (a elwir yn eithriadau) yn ddarostyngedig i'r broses gorchymyn rheoleiddio traffig statudol. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol felly ddilyn y broses statudol sy'n cynnwys y cyfle i wneud sylw neu wrthwynebu yn ystod y cyfnod ymgynghori, a dyna'r hyn y bydd pob awdurdod lleol yn ei wneud.

Cwestiynau Ysgrifenedig gan y Cyngor – 27 Medi 2022

Eitem 7: Cwestiynau i Aelod Cabinet (tynnwyd yr eitem oddi ar Agenda'r Cyngor yn dilyn Hysbysiad o Gynnig ynghylch Marwolaeth y Frenhines Elizabeth II)

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau: Mynediad Preswylwyr at Drafnidiaeth Gyhoeddus

Gofynnodd y Cynghorydd Howells:
Er gwaethaf y newidiadau diweddar i wasanaethau bws, nid oes unrhyw wasanaethau bws yn gwasanaethu Pentref Lysaght na'r ardaloedd diwydiannol cyfagos ar y Sul nac ar ôl 7pm gyda'r nos. A all yr Aelod Cabinet gadarnhau y bydd yn adolygu'r ddarpariaeth hon gyda Bws Casnewydd ac yn ceisio sicrhau bod gan yr holl breswylwyr fynediad teg at drafnidiaeth gyhoeddus?

Ymatebodd y Cynghorydd Lacey:
Rhwydwaith masnachol yn bennaf yw'r rhwydwaith bysus yng Nghasnewydd, ac nid yw'r Cyngor yn gallu gwneud llawer i gyfarwyddo gwasanaethau. Cyflwynodd Bws Casnewydd rai newidiadau i wasanaethau bws yn ddiweddar, a seiliwyd y rhain ar wasanaethu'r ardaloedd

â'r lefelau uchaf o gwsmeriaid, ac ar y data fflecsi a ddangosai'r ardaloedd lle'r oedd y bysus yn cael eu defnyddio'n bennaf gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Ceir prinder gyrwyr bws ar hyn o bryd hefyd i gynnal darpariaeth gyda'r nos ac ar y Sul. Rydym yn cydweithio'n agos â Bws Casnewydd wrth iddynt ystyried gwasanaethau, a byddwn yn adolygu'r holl wasanaethau gyda Bws Casnewydd dros y misoedd nesaf, i weld pa newidiadau y gallem eu gwneud i wasanaethu mwy o ardaloedd nad ydynt yn gallu eu gwasanaethu gyda'r nos ac ar y Sul ar hyn o bryd.

Nid oes gennym unrhyw sicrwydd ynghylch pa gyllid fydd ar gael i'r awdurdod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol hon i ariannu gwasanaethau bws lleol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gyda Bws Casnewydd i wella gwasanaethau bws ym mhob ardal o fewn y pot arian a fydd ar gael inni.

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth: Buddsoddiad Cyfalaf mewn Parciau

Gofynnodd y Cynghorydd Howells:
Yn y gyllideb ar gyfer eleni, amlinellwyd £2.5 miliwn o gyfalaf i fuddsoddi yn ein parciau. Hyd yn hyn, faint sydd wedi'i ymrwymo ac ymhle?

Ymatebodd y Cynghorydd Forsey:
Mae'r buddsoddiad ychwanegol sylweddol yn cynnwys ardaloedd chwarae a mynwentydd. O ran mynwentydd, bydd y buddsoddiad yn anelu i sicrhau bod ein safleoedd yn hygyrch a diogel i ymwelwyr. Er bod rhywfaint o waith trwsio wedi dechrau eisoes, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei roi allan ar dendr ar hyn o bryd.

O ran mannau chwarae, bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i glirio'r gwaith cynnal sydd wedi ôl gronni dros y 2 flynedd ddiwethaf, i sicrhau bod yr offer yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio. Trefnir gwaith yn ôl blaenoriaeth ar sail canlyniadau'r arolygiadau.

Mae'r Arweinydd a mi'n awyddus i sicrhau bod y gymuned leol yn cymryd rhan mewn unrhyw waith i osod offer newydd yn lle offer sy'n cael ei dynnu ymaith, felly mae swyddog ymgysylltu'n cael ei recriwtio ar hyn o bryd i sicrhau trefniadau priodol i gynnwys plant lleol.

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth: Lleihau Lefelau Tipio Anghyfreithlon

Gofynnodd y Cynghorydd Howells:
Yng ngoleuni'r adroddiad diweddar ynghylch problemau tipio anghyfreithlon yng Nghasnewydd, pa gamau rhagweithiol a gynigir gan yr Aelod Cabinet i leihau'r lefelau hyn, ac ai un o'r opsiynau dan ystyriaeth yw adolygiad o'r system archebu yng nghanolfan ailgylchu Gwastraff y Cartref Casnewydd.

Ymatebodd y Cynghorydd Forsey:
Nid yw'r cynnydd mewn achosion ond yn deillio o gynnydd yn y gwaith a wneir gan dimau'r Cyngor i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Buddsoddodd y Cabinet mewn ail dîm penodol i ymateb i achosion o dipio anghyfreithlon, ac mae'r gweithredu a'r camau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon wedi cynyddu - sydd wedi golygu bod mwy o ddigwyddiadau'n cael eu canfod a'u riportio mewn modd rhagweithiol.

Rydym hefyd wedi annog preswylwyr i'n hysbysu am unrhyw achosion o dipio anghyfreithlon drwy ein gwefan a thrwy ap Fy Nghasnewydd sy'n ein helpu i gael gwared ar y sbwriel ynghynt.

O ganlyniad i hynny mae'r Cyngor wedi cofnodi'r nifer uchaf ond un o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn tipwyr anghyfreithlon yng Nghymru dros y cyfnod hwn, gan gynnig amser ymateb cyfartalog o lai nag 1.5 diwrnod.

Byddwn yn parhau i weithredu yn erbyn unrhyw un a gaiff ei ddal yn tipio'n anghyfreithlon yn ein dinas, ac yn gweithio mewn modd rhagweithiol â'n partneriaid i wrthannog ymddygiad fel hyn; bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos â'r rhwydwaith o wirfoddolwyr, gwaith partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau eraill a chamau gorfodi ac ymyriadau uniongyrchol.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i gysylltu'r system archebu yng nghanolfan ailgylchu Gwastraff y Cartref Casnewydd â chynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon.

Mae'r system archebu wedi gwella sawl agwedd a oedd wedi achosi problem yn y gorffennol ar y safle, ac a oedd yn amharu ar ddiogelwch, perfformiad a bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae'r system hefyd wedi arwain at berfformiad gwell o ran ailgylchu, ac enillodd y Cyngor safle Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref y flwyddyn y llynedd. Defnyddir system debyg bellach yn y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru.

The meeting terminated at Time Not Specified